

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref Brithdir  
Nos Fawrth, Mehefin 21, 2022 am 7:30 o'r gloch.**

[www.cyngorllanfachreth.cymru](http://www.cyngorllanfachreth.cymru)

**Presennol** Cyngorwyr: Karen G. Goswell (Cadeirydd), Gerallt Griffith, Meurig Ashton, Peredur Jenkins ac Emlyn Roberts Hefyd Cyngorydd Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

Etholwyd Rhun Prys Jones, Barry Jones, Geraint Evans a Llion Williams i'r Cyngor.

**1. Croeso'r Cadeirydd** Croesawyd pawb i'r cyfarfod yn enwedig Cyng. Delyth Lloyd Griffiths oedd yn ei chyfarfod cyntaf y Cyngor.

Rhodddwyd teyrnged i'r diweddar Thomas Mordaf Roberts oedd yn aelod ffyddlon o'r Cyngor am lawer o flynyddoedd. Mi fydd yn golled fawr inni heb ei gyfraniad i'r Gymuned ac i'r Cyngor.

**2. Ymddiheuriadau:**

Doedd dim ymddiheuriadau.

**3. Datgan diddordeb.**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth 15, 2022.**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Mawrth 15, 2022.**

Eitem 11.a. Llythyr ateb (30/3/2022) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod bydd Ffordd Station, Drwsynant yn derbyn sylw graeanu blaenoriaeth fel ffyrdd tebyg ar eu cylchdeithiau.

Eitem 8.ch. Penderfynwyd anfon y ffurflen (am yr ailwaith) i'r aelodau iddynt roi gwybod os ydynt am dderbyn lwfans o £150 ar gyfer y flwyddyn ariannol diweddu ar 31 Mawrth 2023.

**6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (18/3/2022) oddi wrth Swyddog Gwasanaeth Etholiadol, Cyngor Gwynedd gyda Rhybudd Etholiad Cyngorau Tref / Cymuned.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEHEFIN 21, 2022

Rhoddwyd y Rhybudd ar ein hysbysfyrddau 23/3/2022, ac anfonwyd y Rhybudd i'r aelodau 27/3/2022.

Llythyr (29/3/2022) ) oddi wrth Swyddog Gwasanaeth Etholiadol yn atgoffa'r aelodau i anfon eu ffurflenni i Swyddfa'r Cyngor.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Anfonwyd (28/4/2022) canlyniadau o'r etholiad yn rhestru aelodau sydd ar y Cyngor Cymuned – 1 yn ward Brithdir a 4 yn ward Machreth.

Llythyr (22/5/2022) oddi wrth Huw A. Evans yn rhoi gwybod ei fod yn ymddeol fel cynghorydd y Cyngor.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd anfon llythyr o ddiolch iddo am ei wasanaeth i'r Cyngor am 30 o flynyddoedd.

Anfonwyd llythyr (21/5/2022) i Etholiad, Cyngor Gwynedd am hysbysiad i gyfethol aelodau.

Rhoddwyd hysbysiad o gyfethol saith aelod (3 i Brithdir, 4 i Machreth) i'r Cyngor ar ein gwefan ac ar yr hysbysfyrddau (24/5/2022).

Cafwyd wybod gan Barry Jones, Geraint Evans, Llion Williams a Rhun Jones maent agen bod yn gynghorwyr ar y Cyngor.

Derbyniwyd cais gan Mr Robin Jones i fod yn gynghorydd ar Ward Brithdir.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Mr Jones ei fod wedi cael ei ethol yn gynghorydd i'r Cyngor.

b. Llythyr (21/3/2022) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Mawrth ac Ebrill 2022.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (24/3/2022) oddi wrth Clarke Telecom gyda'u cynllun am 'telecommunications radio base station' i broject 'Shared Rural Network' ar ran Vodafone, Telefonica a Three. Bydd yr orsaf yn cael ei adeiladu yn Ty-Newydd-y-Mynydd, Llanuwchllyn.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau yn holi os oedd ganddynt sylwadau ar y cynllun.

Penderfynwyd gofyn i'r cwmni faint o'r ardal bydd yn manteisio ar eu gwasanaeth.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEHEFIN 21, 2022

ch. Llythyr (29/3/2022) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd gwaharddiad trafndiaeth dros dro ar Ffordd Dosbarth III gyferbyn a Parc Carafanau Llwyn yr Helm, Brithdir. Bydd y ffordd ar gau ar 5/4/2022 am ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i BT gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

d. Llythyr (31/3/2022) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:

1. Mae cais i ysgubo dail ar ffyrdd y gymuned wedi ei drosglwyddo i'r Uned Glanhau Strydoedd. Gweler Cofnodion Ionawr 18, 2022, Eitem 11.b.1.

2. Mae gwaith agor ffos rhwng Capel Hermon a Phont Hermon wedi ei gwblhau. Gweler Cofnodion Ionawr 18, 2022, Eitem 11.b.2.

3. Mae gwaith cryfhau ochr ffordd wrth Rhiwfelen, Abergeirw wedi cael ei roi ar raglen clytwaith (patching). Gweler Cofnodion Chwefror 15, 2022 Eitem 11.a.

dd. Llythyr (6/4/2022) oddi wrth Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd. Maent:

1. yn cynnal Ymgynghoriad Cyhoeddus i Anghenion Tai. Maent angen barn trigolion Gwynedd ynghŷlch yr angen am dai yn y Sir. Amgáu gyda'r llythyr mae dolen i'r ymgynghoriad.

2. angen gwybodaeth am dai gwag sydd yn yr ardal. Amgáu mae dolen i roi gwybodaeth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

e. Llythyr (13/4/2022) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Ebrill a Mai, 2022.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

f. Llythyr (13/4/2022) oddi wrth Uned Trafnidiaeth Integredig a Diogelwch Ffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod maent wedi derbyn arian ar gyfer llochesi fws newydd a gosod Sgrin Gwybodaeth Bysiau ar lwybr bws y gwasanaeth Trawscymru T3 yn Rhydymain. Bydd y gwaith yn cychwyn ar 29 Mehefin 2022 a'r lloches yn cael ei osod 5 Gorffennaf 2022.

Maent angen gwybod os rydym yn cytuno hefo'r cynllun. Bydd trefniadau cynnal a chadw ac yswiriant ar y lloches newydd yn disgyn arnom ni.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau am eu sylw.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEHEFIN 21, 2022

Llythyr (14/4/2022) oddi wrth Uned Trafnidiaeth Integredig a Diogelwch Ffyrdd yn rhoi gwybod bydd y lloches bresennol yn cael ei dynnu i lawr ac un newydd yn ei le. Mae'r sgrin gwybodaeth electronig dan gontract yr Uned gyda chwmmi i'w gynnal a chadw. Bydd y cwmni yn gwybod os mae'n gweithio neu beidio.

Penderfynwyd cefnogi'r cynllun. (26/4/2022).

Llythyr (20/6/2022) oddi wrth yr Uned yn holi os mae yr hen loches o ddefnydd i ni, neu iddynt ei ail-gylchu yn rhywle arall.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Uned nid yw'r hen loches o ddefnydd i ni.

ff. Dau lythyr (24/4/2022) oddi wrth Peredur yn cynnwys gwybodaeth derbyniodd Cyngorwyr Gwynedd oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd ynglŷn â 'Sefydlu Timau Cymunedau Glan a Thaclus' fydd yn weithredol ar draws y Sir. Bydd y timau yn gwneud mân waith o docio gordyfiant, codi chwyn, glanhau a mân waith cynnal arwyddion ffyrdd ac enwau strydoedd, golchi strydoedd a thynnu gwm, golchi binniau a chynnal.

Anfonwyd y ddau lythyr ymlaen i'r aelodau am eu sylw.

g. Llythyr (26/4/2022) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith ailwynebu yn cael ei wneud ar B4416 cyffordd Caerynwch – Ty Nant a ffordd sy'n arwain i Llwyn yr Helm, Brithdir.

h. Anfonwyd cerdyn (17/5/2022) i Peredur Jenkins yn dymuno gwellhad buan iddo wedi'r llaw driniaeth cafodd.

i. Anfonwyd llythyr (18/5/2022) i Gynghorydd Delyth Lloyd Griffiths yn llongyfarch hi ar gael ei hethol yn Gynghorydd Ward Machreth a Ward Brithdir. Yn cynnwys gyda'r llythyr oedd man wybodaeth am y cyngor.

j. Llythyr (2/6/2022) oddi wrth Gwasanaeth Cefn Gwlad gyda mapiau a gwybodaeth am weithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â gwaith torri coed yn Coed Mynydd, Cae Poeth a Bwlch Rhos i gyd o fewn Coed y Brenin. Ni fydd ffyrdd a llwybrau cyhoeddus yn cael eu cael cau.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

l. Llythyr (30/5/2022) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd torri gwair ar briffyrdd Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain ym mis Mehefin.

ll. Anfonwyd cerdyn cydymdeimlad i Mrs Margaret Roberts (1/6/2022).

## **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Llythyr (26/4/2022) yn rhoi gwybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa Cartrefi Modur yn Eryri. Mae hyn yn dilyn cynnydd sylweddol yn y nifer o gartrefi modur sydd yn gweryslla dros nos mewn ardaloedd answyddogol megis meysydd parcio a chulfannau dros y ddwy flynedd diwethaf.

Mae'r llythyr yn rhestru gweithrediadau mai'r Parc yn ei wneud, fel cyd weithio gyda Cyngor Gwynedd, a rhannu gwybodaeth gydag arwyddion, taflenni, gwefan.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (11/5/2022) yn holi oes gennym unrhyw sylwadau pellach ar gais cynllunio NP5/54/8C. Codi adeilad i storio peirianau a gwaith cysylltiol. Gellfachreth, Llanfachreth.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Anfonwyd llythyr (14/5/2022) i'r Parc yn rhoi gwybod iddynt rydym yn gwrthod derbyn y cais. Rhoddwyd iddynt gopiau o'r llythyrau sydd wedi bod rhwng y Parc a ni ynglŷn â'r cais.

c. Cais cynllunio NP5/74/500. Tynnu llwybr 'boardwalk' bresennol ac ail-wynebu gyda arwyneb agreg Newydd. Tir yn Waun Camddwr, Dinas Mawddwy

Penderfynwyd cefnogi'r cais (26/5/2022). Mae problem erydu ar hyd darnau o'r llwybr. Mae'r styllod pren sydd wedi eu gosod ar hyd darnau mwyaf gwlyb o'r llwybr, ers dros ugain mlynedd, erbyn hyn wedi pydru. Mae nifer gynyddol o gerddwyr yn creu difrod, ac mewn darnau mae mwd dros deg medr o led. Mae amlygu'r mawn yn rhyddhau carbon i'r amgylchedd.

## **8. Materion Ariannol**

a. Llythyr (17/3/2022) oddi wrth Kids Cancer Charity. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

b. Llythyr (20/3/2022) oddi wrth Neuadd Llanfachreth yn diolch am ein rhodd o £700.

c. Llythyr (4/4/2022) oddi wrth Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth yn diolch am ein rhodd o £350.

ch. Bil (15/3/2022) Treth Annomestig Cenedlaethol ar gyfer 2022/23 tuag at Public Convenience Rhydymain oddi wrth Cyngor Gwynedd. Does dim taliad am y cyfnod.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEHEFIN 21, 2022

d. Llythyr ( 1/3/2022) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn cynnwys:

i. Copi o P60 am y flwyddyn yn diweddu 5/4/2022.

ii. Bil am £204.00 am gwblhau PAYE am y flwyddyn yn gorffen 5/4/2022 ac am roi gwybodaeth gyflog fisol i HMRC ar-lein i gydymffurfio â RTI a pharatoi tystysgrif P60 am ddiwedd y flwyddyn.

Llythyr (6/6/2022) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn atgoffa am daliad sydd angen ei wneud.

Penderfynwyd talu'r bil.

dd. Bil (24/3/2022) am £650.00 oddi wrth Archwilio Cymru am Archwilio 2020/21.

Penderfynwyd talu'r bil.

e. Llythyr (21/04/2022) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn rhoi gwybod bydd taliad misol i'r Clerc yn £156.12 ac i Thollau EM £39.00: £195.12 x 12 = £2,341.44. Cytunwyd y cyflog yn cyfarfod Mawrth 15, 2022, Eitem 8.d..

Roedd yr aelodau yn fodlon gyda'r cyflog

f. Llythyr (27/4/2022) oddi wrth Uned Taliadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd taliad praesept £6,000 yn ein cyfrif ar 27/4/2022 Taliad am hanner blwyddyn.

ff. Costau'r Clerc am Ebrill 1, 2021 - Mawrth 31, 2022:

Swm am: stampiau + papur + amlenni + inc: £591.34 (Llynedd roedd y costau yn £454.26).

Penderfynwyd talu'r swm.

g. Llythyr (12/5/2022) oddi wrth RABI yn diolch am ein rhodd o £100.

h. Dogfennau (31/5/2022) polisi yswiriant y Cyngor oddi wrth Zurich am y cyfnod 01/6/2022 i 31/5/2023. Y swm i'w adnewyddu yw £559.17. (Tâl flwyddyn ddiwethaf oedd £551.83).

Talwyd y swm ar 3/6/2022.

i. Anfonwyd copi o 'Cyfrifon Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth 2021-2022' a 'Cyllideb 2022-2023' i'r aelodau.

Roedd yr aelodau yn fodlon gyda'r wybodaeth.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEHEFIN 21, 2022

- j. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/3/2022: £1,141.47  
Balans yn y banc ar 29/3/2022: £5,357.20. (29/3/2021: £1,986.16.).
- l. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/4/2022: £1,141.52.  
Balans yn y banc ar 29/4/2022: £10,520.80. (29/4/2021: £1,858.39).
- m. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/5/2022: £1,141.57.  
Balans yn y banc ar 29/5/2022: £10,387.20. (29/5/2021: £6,828.76).

**9. Archwilio**

- a. Llythyr a phapurau (17/3/2022) oddi wrth Archwilio Cymru yn rhoi manylion at archwiliad allanol 2021 – 2022.

Mae rhaid i'r Ffurflen Flynyddol 2022 gael ei hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a'i chymeradwyo gan y Cyngor erbyn Mehefin 30 2022.

Mae angen anfon y ffurflen wedi'i chwblhau a'i gymeradwyo, a gwybodaeth sydd ei angen, i Archwilio Cymru erbyn Gorffennaf 15, 2022.

I roi cyfle i'r cyhoedd archwilio cyfrifon a dogfennau eraill mae angen inni gyhoeddi Hysbysiad Archwilio erbyn Mehefin 20, 2022 ar ein hysbysfyrdau ac ar ein gwefan ac am o leiaf 14 diwrnod; bydd hyn yn rhoi cyfle i'r cyhoedd archwilio'r dogfennau o Gorffennaf 4 i Gorffennaf 29.

Mae Archwilio Cymru angen:

Ffurflen Flynyddol wreiddiol,

cysoniad banc ar 31 Mawrth 2022,

esboniad o'r amrywiadau rhwng 2020-21 a 2021-22 adroddwyd yn y ffurflen flynyddol eleni,

esboniad o reolaethau mewnol a threfniadau cymeradwyo'r Cyngor ar gyfer taliadau a wneir gan y Cyngor,

copi o'r Hysbysiad Archwilio a ddangosir ar hysbysfwrdd a gwefan y Cyngor,

Bydd angen i'r Cadeirydd arwyddo Ffurflen Flynyddol 2022.

Arwyddodd y Cadeirydd y Ffurflen Flynyddol 2022.

Mae Archwilio Cymru yn parhau archwilio dogfennau ar gyfer 2021 a blynyddoedd yngynt. Eu nod yw bydd holl ffurflenni blynyddol yn cael eu cyhoeddi yn y ddau fis nesaf. Nid ydynt wedi derbyn tua 125 o ffurflenni blynyddol ar gyfer 2020-21 a nifer sylweddol o ffurflenni blynyddol ar gyfer blynyddoedd yngynt.

Bydd archwiliad 2021/22 a 2022/23 yn Sylfaenol, a 2023/24 yn Llawn.

- b. Anfonwyd dogfennau'r cyngor i Archwilydd Mewnol, Cyngor Gwynedd ar 4/5/2022.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEHEFIN 21, 2022

c. Derbyniwyd (11/5/2022) Adroddiad Archwiliad Mewnol oddi wrth Cyngor Gwynedd.

O'r adroddiad mae angen i'r Cyngor llunio cyllideb ffurfiol ar ddechrau y flwyddyn ariannol.

Anfonwyd yr adroddiad i'r aelodau gan gynnwys gohebiaeth oedd rhwng yr archwiliwr a'r clerc yn ystod yr archwiliad. Yn gynnwys hefyd oedd Ffurflen Flynyddol Ddaeth i ben 31 Mawrth 2022; roedd angen newid yr un gwreiddiol oherwydd camgymeriad. O'r adroddiad mae angen i'r Cyngor llunio cyllideb ffurfiol ar ddechrau y flwyddyn ariannol.

Penderfynwyd anfon yr adroddiad i'r aelodau am yr ail waith.

### **10. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

- a. Trwy gydweithio efo Liz Saville Roberts AS bydd mwy o drigolion yr ardal yn cael 'broadband'.
- b. Bydd bin baw cŵn yn cael ei roi yn Rhydymain.
- c. Mae Cyngor Gwynedd yn cael hi'n anodd apwyntio gofalwyr i ofalu am yr henoed.
- ch. Mae gwaith yn cael eu gwneud i rwystro parcio carafanau mewn llefydd anaddas.
- d. Mae Delyth ar bwyllgorau Y Cyngor (staffio a chymunedau) a Cynllunio.

### **11. Materion yr Aelodau**

- a. Holwyd Priffyrdd (18/2/2022) os mae'r rhiw ar ffordd Station Drwsynant yn cael blaenoriaeth adeg graeanu ffyrdd fel sy'n cael ei wneud ar y ffordd i Aran Hall, Rhydymain. Os nad ydyw, iddynt ystyried bod y rhiw yn cael blaenoriaeth adeg graeanu ffyrdd.
- b. Anfonwyd llythyr (17/3/2022) i Adran Priffyrdd yn rhoi gwybod iddynt mae angen trwsio canllaw bont sydd rhwng Adwyddwr a Tyddyn Du, a chanllaw bont sydd rhwng Tyddyn Du a Caepoeth, Hermon.

Llythyr ateb (7/6/2022) oddi wrth YGC (Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy), Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod maent wedi trwsio'r canllawiau Pont Blaen y Glyn.

- c. Anfonwyd llythyr (20/3/2022) i Adran Llwybrau, Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt roi sylw i bont droed sydd yn hen iawn ac o bwysigrwydd i hanes lleol yr ardal. Mae'r bont tua 150m ymhellach ymlaen o'r ffordd sydd efo tarmac ond er hynny mae'r ffordd yn un gyhoeddus. Mae'r bont wedi cael ei wneud efo slab garreg fawr sydd wedi cael ei osod ar biler o gerrig. Oherwydd symudiad yn y piler mae'r slab wedi disgyn i'r ffos. Mae'r bont i'r de o Tyddyn-du, Hermon ac angen ei thrwsio.



CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEHEFIN 21, 2022

Llythyr ateb (7/6/2022) oddi wrth YGC yn rhoi gwybod maent am osod pont newydd yn lle'r boncyffion sydd yn croesi'r afon wrth Tyddyn Du. Ni allant roi y cynllun gwreiddiol o'r hen bont hanesyddol oedd gyda piler cerrig a slabiau cerrig oherwydd canllawiau pontydd troed presennol. Amgau mae tri llun o'r safle.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Cafwyd llythyr gan Rhun (10/6/2022) yn rhoi gwybod mae gwrthwynebiad cryf gan drigolion yr ardal i gynllun YGC i osod pont pren newydd ar y safle. Mae barn bod pont bren yn ddrud, hyll a ddim yn para. Mae'r coed sy'n gwneud y bont i groesi'r nant ddim i fod yno ac mae'n debyg mai plant sydd wedi eu gosod. Mae barn mae'n bosib i adeiladwr profiadol ail adeiladu piler a phentanau, a gosod slab cerrig; bydd hyn yn cadw unigrwydd y bont. Bydd hyn yn rhatach na gwneud gwaith i gael pont bren newydd.

Mae Rhun am drïo cael llun o'r bont wreiddiol. Mae Rhun angen gwybod pwy i gysylltu yn Gyngor Gwynedd i gael cefnogaeth i safio'r bont. Mae'n bosib yr ateb haws i'w dymchwel y bont a rhoi pont fodern yn ei lle, ond mae cynnal a chadw nodweddion sydd wedi bod yn rhan o'r tirlun ers degawdau yn bwysig iawn i fosaic ein tirwedd a'n cymunedau.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau, a lluniau o'r hen bont.

Cafwyd llythyr gan Emlyn (12/6/2022) yn rhoi gwybod bod y bont ar yr hen lwybr o ben uchaf cwm Hermon, heibio Ysgwydd y Glyn, ar hyd Bwlch Goriwaered a drosodd i Lanfachreth. Ger y bont mae rhyd ble'r arferai ceffyl a throl fynd gyda'r bobol yn cerdded dros y bont droed.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau

Mae awgrym cael cyfarfod ar y safle gyda Dylan Erfyl Davies. Peiriannydd, YGC.

Cafwyd cyfarfod ar y safle ar Mehefin 20 gyda dau swyddog o Priffyrdd (Dylan Erfyl Davies ac Adrian Williams) a Delyth, Karen, Rhun, Meurig, Llion a Henry. Pendefynwyd i Gyngor Gwynedd rhoi sylw i ail godi'r bont fel yr oedd a gyda chanllawiau pren.

Wrth drefnu'r cyfarfod derbyniodd y Cyngorydd lythyr oddi wrth Mr Davies yn rhoi gwybod mae am fod yn anodd datrys y gwahaniaeth barn rhwng y Cyngor Cymuned sydd eisiau'r bont gerrig yn ôl fel yr oedd hi, a ninnau fel adran sydd yn gorfod gwarchod defnyddwyr y bont i'r dyfodol a hefyd gwarchod Cyngor Gwynedd rhag unrhyw "claims" ac or herwydd yn gorfod sicrhau fod unrhyw bont rydym yn ei osod yn cydymffurfio gyda'r gofynion dylunio diweddaraf h.y. deck sydd ddim yn slip a chanllaw pob ochr. Er gwybodaeth mae'r Cyngor wedi cael trafferth yn eithaf diweddar ar bont gerrig tebyg ond llawer llai yn ardal Meirionnydd felly mae rheswm pam ein bod am gydymffurfio. Er diddordeb tybed oes gan unrhyw un llun o'r hen bont fel yr oedd hi yn arfer bod, a hefyd unrhyw syniad pwy sydd wedi rhoi y bont dros dro yno (anfonwyd lluniau iddo).

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEHEFIN 21, 2022

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau

ch. Cais oddi wrth (23/3/2022) Mrs Gwenfai Evans, 2 Maesbrith, Dolgellau am fainc ar lwybr Moel Offrwm er cof am ei gwr Mr Richard Emrys Evans.

Penderfynwyd anfon y cais ymlaen i'r Parc.

d. Anfonwyd llythyr (30/5/2022) i Reolwr Stadau, Cyngor Gwynedd am yr angen i drwsio tua 3 metr o ffens sydd wedi dymchwel ar derfyn y cae chwarae sydd ar gyfer gardd yr Ysgol yn Llanfachreth.

Llythyr (7/6/2022) oddi wrth Rheolwr Stadau yn rhoi gwybod mae'r mater wedi ei anfon ymlaen i Adran Addysg am sylw.

dd. Anfonwyd llythyr (30/5/2022) i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd ynglŷn â diffyg gwelediad ar gyffordd wrth i'r ffordd o gyfeiriad Aran Hall ymuno gyda'r briffordd A494 wrth Troedyrhiw, Rhydymain. Mae gwelediad i gyfeiriad Dolgellau yn ddifrifol o wael pan mewn car. Mae llwyni o ardd tŷ Troedyrhiw yn tyfu ac yn rhwystro rhag gweld ceir sydd yn dod o gyfeiriad Dolgellau. Mae hon yn broblem sydd yn codi bob gwanwyn ers rhai blynyddoedd. Mae swyddogion yn dod allan i ymweld ac yn gorchymyn torri, trimio y llwyni ond erbyn y flwyddyn ganlynol mae wedi tyfu eto ac yr un broblem yn ail godi. Os na fydd hyn yn cael ei drin o ddifri bydd y peryg o ddamwain ddigwydd yn cynyddu yn ddyddiol.

Mae'r gyffordd yma yn un brysur iawn gyda thua pymtheg o dai a ffermdai, yn ogystal ag ysgol anghenion arbennig Aran Hall sy'n cyflogi tua chwedeg o weithwyr, yn ei ddefnyddio.

Gan fod hon yn broblem sy'n codi yn rheolaidd gofynwyd i'r Priffyrdd iddynt ddatrys y broblem hon, a chael adroddiad ganddynt o'u darganfyddiad a'u hargymhellion.

Cafodd y llythyr ei anfon ymlaen i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

e. Sydd angen newid y ffigwr i gael cworwm cyfarfod?

Yn ein 'Rheolau Sefydlog' - Cworwm Eitem 7. (i) Pum Cyngorydd fydd y cworwm.

Yn 'From the good councillor's gude For Community and Town Councillors' Un Llais Cymru mae cworwm yn  $1/3$  o aelodau llawn h.y.  $12/3 = 4$ .

Penderfynwyd newid y cworwm i 4.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEHEFIN 21, 2022

f. Mae angen gwella ffos rhwng y tai y forestry (Glanwnion) ac Esgairgawr, i'r un safon á'r ffos sydd wedi cael ei wneud wrth ymyl, h.y. gyda pheipen a cherrig. Mae hefyd angen rhoi sylw i'r canllawiau y bont sydd wrth ymyl.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd.

ff. Mae arwyneb y ffordd sydd rhwng Ffridd Goch Isaf Llanfachreth a chroesffordd Ffordd Lefel / Ganllwyd / Llanfachreth wedi dirywio ac yn arw iawn mewn darnau. Mae angen llenwi y tyllau neu ailwynebu y darnau gwaethaf.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd.

g. Mae angen tocio gordyfiant coed ar ochr Dolgellau i'r Bont ar Ddibyn ger top Torrent. Mae'n anodd gweld y traffig ddwy ffordd yn yr haf.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd.

h. Mae un o drigolion Llanfachreth yn awyddus i gael peintio dros y graffiti sydd ar waliau mewnol y lloches bws yn Llanfachreth gyda phaent llwyd.

Penderfynwyd i'r gwaith cael ei wneud

Llofnod:

Dyddiad:

-----